

**Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cynhadledd Cynhwysiant Awdurdodau Addysg Lleol**

PAPUR GWEITHDY

DATGANIADAU NEU RYWBETH GWELL?

**CRYNODEB O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA A'R
CAMAU NESAF**

Mawrth 2008

Cefndir

Yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adroddiadau gan ESTYN, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio a Cambridge Education Associates, cyn-Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru adolygiad polisi yn ymwneud â'r fframwaith ar gyfer asesiadau a datganiadau statudol anghenion addysgol arbennig (AAA), (rhan 2 o adolygiad tri cham o AAA). Gwnaeth yr adroddiad ar yr adolygiad* 28 o argymhellion ar gyfer newid.

Cyfrannodd grŵp gorchwyl a sefydlwyd gan Gynulliad Cymru at yr adolygiad polisi a lluniodd saith opsiwn ar gyfer newid. Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol lleihawyd nifer yr argymhellion hyn i dri. Argymhelliad cyntaf adolygiad polisi Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw:

".....ymgynghori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i greu consensws a meithrin hyder cyn y gwneir unrhyw newidiadau sylfaenol i'r fframwaith asesu statudol."

Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad rhagarweiniol â rhieni ynghylch yr opsiynau posibl hyn ar gyfer newid ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2007 (gweler adroddiad Medi 2007). Dilynwyd hyn gan ail gam o ymgynghoriadau â gweithwyr proffesiynol a'r sector gwirfoddol yn ystod yr hydref. (gweler adroddiad Ionawr 2008)

Mae Argymhelliad 2 Adolygiad Polisi Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn galw ar y Cynulliad i:

" ...[g]eisio'r pwerau sydd eu hangen i gael cymhwysedd cyfreithiol llawn ar gyfer trefniadau asesu statudol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol."

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n bosibl bellach i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau'r cyfryw bwerau ac mae wrthi'n ceisio cael Cymhwysedd Deddfwriaethol yn y maes.

Cyflwyniad

Nodau'r ymgynghoriad rhagarweiniol â rhanddeiliaid allweddol oedd:

- o Meithrin hyder a chonsensws ynghylch y ffordd ymlaen.
- o Ystyried opsiynau posibl ar gyfer diwygio'r system gyfredol sy'n deillio o'r gwaith a wnaeth pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i adolygiad o Asesiadau a Datganiadau Statudol a chanlyniadau'r gwaith cysylltiedig a wnaed gan Grŵp Gorchwyl Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- o Ceisio barn pobl ar effeithiolrwydd y system gyfredol a
- o Nodi nodweddion hanfodol fframwaith diwygiedig.

Ymddengys fod yr ymgynghoriad, sydd bellach wedi'i gwblhau, wedi cyflawni'r nodau hyn yn llwyddiannus ac mae adroddiadau wedi'u llunio ar yr ymgynghoriad â rhieni a gofawyr, sefydliadau yn y sector gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Bu'r adborth ar y broses ymgynghori yn gadarnhaol iawn. Mae hyn yn cyfiawnhau'r gofal a gymerwyd a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i lunio'r byrddau stori a oedd yn disgrifio'r opsiynau a hwyluso'r amrywiaeth eang o gyfarfodydd ymgynghori a drefnwyd ledled Cymru.

Mae'r papur hwn yn ceisio dod i rai casgliadau cychwynnol yn dilyn yr ymgynghoriad rhagarweiniol ac awgrymu agweddau posibl a allai fod yn ddefnyddiol cyhyd ag y gwneir rhywfaint o waith treialu.

Nodweddion hanfodol yn deillio o'r ymgynghoriad

Ceir isod grynodedb byr o'r prif nodweddion sydd eu hangen mewn system ddiwygiedig a nodwyd drwy'r ymgynghoriad:

Byddai angen i unrhyw system fod yn seiliedig ar hawliau'r plentyn a'r egwyddorion allweddol canlynol: Ceir isod grynodedb o'r hawliau a'r egwyddorion hynny a nodwyd naill ai'n amlwg neu drwy awgrym yn unig yn ystod y broses.

HAWLIAU AC EGWYDDORION ALLWEDDOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG AAA

- o Manteisio ar addysg gynhwysol ym mha leoliad bynnag y maent yn cael eu haddysgu.
- o Cael yr hawliau a roddir i bob plentyn a pherson ifanc arall. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn nodau Cynulliad Cymru ar gyfer plant yn *Gweithredu'r Hawliau*. Mae'r nodau craidd hyn yn mynnu bod pob plentyn:
 - Yn cael dechrau da mewn bywyd.
 - Yn cael cynnig ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
 - Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth.
 - Yn cael clust, yn cael eu trin â pharch a bod eu hunaniaeth hiliol a diwylliannol yn cael ei chydabod.
 - Yn byw mewn cartref diogel a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
 - Yn byw bywyd lle nad yw o dan anfantais oherwydd tlodi.
- o Manteisio ar addysg eang a chytbwys o safon.
- o Gallant wneud cynnydd da tuag at wireddu eu potensial a byw bywyd annibynnol.
- o Cael asesiadau a darpariaeth sydd wedi'i chynllunio yn seiliedig ar ddarlun cyfannol o anghenion unigolyn.
- o Bod AAA unigol yn cael eu nodi a'u hasesu yn gynnar a bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud yn ddi-oed.
- o Yn achos y rhai sydd wedi'u cofrestru fel plant a phobl ifanc *Sy'n Derbynn Gofal*, yr hawl i fanteisio ar rianta corfforaethol effeithiol.
- o Yn achos y rhai o wahanol gefndiroedd ethnig a diwylliannol yr hawl i ddisgwyl bod eu hanghenion addysgol arbennig yn cael eu nodi, eu hasesu a'u diwallu'n briodol.

Er mwyn sicrhau hawliau a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag AAA mae angen continwrm o ddarpariaeth a chymorth o safon gan amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sydd ar gael ym mhob rhan o Gymru. Mae angen i'r cyfryw ddarpariaeth:

- o Fod yn gyfartal, yn deg ac yn dryloyw.
- o Cael eu gweithredu'n gyson o fewn ac ar draws AALLau yng Nghymru.
- o Bod yn hyblyg ac ymateb i anghenion unigol.
- o Meithrin partneriaethau effeithiol gyda rhieni / gofalwyr a'r sector gwirfoddol.
- o Sicrhau y diogelir hawliau yn effeithiol.
- o Defnyddio adnoddau yn effeithlon.
- o Sicrhau gwaith gwerthuso a monitro trylwyr i gynnal safon uchel gyson.
- o Gwrando yn empathetig ac ystyried barn; plant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr wrth gynllunio darpariaeth.
- o Cael amserlenni byr y glynir wrthynt, o'r adeg y nodir AAA i'r adeg y gwneir darpariaeth.

GWELLIANNAU ALLWEDDOL Y MAE ANGEN EU GWNEUD I'R SYSTEM GYFREDOL

Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y fframwaith statudol cyfredol a Chod Ymarfer AAA Cymru yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn briodol. Nodir isod y prif feysydd lle y mae angen gwneud newidiadau:

- o Dull cyson, tryloyw a theg o ariannu darpariaeth AAA.
- o Dull cyson a gwell o asesu ac ymyrryd rhwng ysgolion ac AALLau.
- o Monitro'r modd y gweithredir rheoliadau a'r Cod Ymarfer.
- o Gwella capasiti ysgolion a darpariaeth addysgol arall i ddarparu ar gyfer disgyblion ag AAA.
- o Trefniadau llawer gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol ar bob lefel ac ym mhob cyd-destun.
- o Mwy o eglurder a strwythur o ran rôl y Cydlynnydd AAA mewn ysgolion prif ffrwd.
- o Rhoddir diogelwch gwell ac effeithiol i ddisgyblion a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer y rhai nad ydynt yn destun datganiad AAA.
- o Partneriaeth fwy empathetig ac agored â rhieni a gofalwyr.
- o Gweithgarwch gweithredu rhyngasiantaethol o ran cynlluniau Pontio 14+ ac ymestyn hawliau i gynnwys disgyblion mwy anghenus hyd at 25 oed.
- o Gwell trefniadau pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- o Cynnwys pobl ifanc yn fwy effeithiol yn y prosesau.

PWYNTIAU ALLWEDDOL YNGHYLCH YR OPSIYNAU

Nodir isod elfennau o'r tri opsiwn a hyrwyddwyd drwy'r broses ymgynghori ac a gafodd gefnogaeth eang:

- o System asesu a chynllunio sy'n llai "meddygol" o ran ei dull gweithredu ac sy'n cydnabod yr angen i gynllunio amgylchedd dysgu plentyn ynghyd ag unrhyw anghenion unigol cynhenid. (pob opsiwn)
- o System a weithredir yn gyson ledled Cymru (pob opsiwn)

- o *Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)* yn yr ysgol. (opsiwn 1)
- o *Darparu Cymorth eiriolaeth.* (pob opsiwn)
- o *Penodi Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol* (pob opsiwn).
- o *Y Cynghorydd Gwella Ysgolion.* (pob opsiwn)
- o *Y panel anghenion cymhleth.* (opsiwn 2)
- o Y “diwrnod cyfan” rhyngddisgyblaethol neu ddarpariaeth gwricwlaidd 24 awr ar gyfer y rhai ag anghenion mwy cymhleth. (opsiwn 2)
- o Y datganiad hyblyg o hawliau (pasbort) ar gyfer y rhai nad oes ganddynt anghenion cymhleth. (opsiwn 3).

Casgliadau

1. Nododd ymatebion gan rieni a gofalwyr yn gyson yr un pryderon a materion. Yn yr un modd, cafwyd cryn gysondeb mewn ymatebion gan weithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn y broses. Yr hyn sy’n peri mwy o syndod, efallai, oedd bod y safbwyntiau a fynegwyd yn y ddau gam yn y broses ymgynghori hefyd yn debyg iawn. Golyga hyn ei bod yn bosibl nodi bod cryn gonsensws ynghylch y ffordd ymlaen ledled Cymru.
2. Nodwyd cryfderau a gwendidau yn gyson ar gyfer pob un o’r tri opsiwn. Nid ystyriwyd bod yr un ohonynt yn darparu glasbrint ar gyfer polisi yn y dyfodol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod agweddau ar bob un ohonynt yn welliannau posibl ar y trefniadau cyfredol.
3. Y farn gyffredinol oedd bod y fframwaith cyfredol yn cynnig y rhan fwyaf o’r hyn sydd ei hangen mewn fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA a chyda rhai gwelliannau gellid sicrhau ei fod yn “addas i’r diben” ac yn llai biwrocrataidd ac yn llai “meddygol” o ran ei ddull gweithredu.
4. Fodd bynnag, mae mwyafrif llethol y cyfranogwyr ledled Cymru yn gryf iawn o’r farn nad yw’r system gyfredol yn gweithio fel y dylai a cheir anghysonderau mawr o ran y modd y’i gweithredu mewn AALLau ac ysgolion prif ffrwd. At ei gilydd nid oedd gan y rhieni a’r gofalwyr hynny a fu’n bresennol yn y digwyddiadau ymgynghori lawer o ffydd yr ymdrinnir â hwy yn deg ac y caiff anghenion eu plant eu diwallu’n briodol. O ganlyniad i hyn, yn ôl pob tebyg, roedd teimlad cryf mai’r agwedd ar y trefniadau cyfredol a werthfawrogir fwyaf yw’r diogelwch cyfreithiol a roddir gan ddatganiad. Roedd y rhieni hynny yr oedd eu plant yn cael eu diogelu gan ddatganiad am ei gadw ac roedd y rhieni hynny nad oes gan eu plant ddatganiad ar hyn o bryd am gael un.
5. Unwaith eto, mae cryn gytundeb ynghylch nodweddion hanfodol dymunol y system a’r hyn y mae angen ei roi ar waith i’w gwella.
6. Yn gyffredinol, oherwydd y darlun cliriach y mae’r ymgynghoriad hwn yn ei ddarparu, mae’n anodd dychmygu na wneir unrhyw newid neu nad eir i’r afael ag unrhyw un o’r materion allweddol a nodwyd. At hynny ymddengys ei bod yn anodd ymgymryd â newidiadau mawr ar raddfa eang cyn sicrhau yn gyntaf bod y system gyfredol yn gweithio yn fwy effeithiol a

meithrin ymddiriedaeth rhieni a gofalwyr. Er bod gan rai sefydliadau yn y sector gwirfoddol bryderon o hyd ynghylch y bwriad i ddiwygio'r system, cafodd yr ymgynghoriad dderbyniad da ac mae wedi tawelu llawer o'r ofnau ynghylch newid. Fodd bynnag, mae hefyd wedi codi disgwyliadau y gwneir gwelliannau.

7. Er bod rhieni a gofalwyr yn gwrthwynebu newid, sy'n ddealladwy, mae'r adroddiadau gan Estyn, y Comisiwn Archwilio a phwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn dangos bod angen gwella'r system gyfredol.

<p>Crynodeb a'r ffordd ymlaen</p> <p>Mae'n debyg ei bod yn ddiogel dweud pe baech yn cynllunio system ar gyfer diogelu hawliau plant a phobl ifanc ag AAA a'u rhieni a'u gofalwyr, na fydddech yn dechrau gyda'r system gyfredol. Mae angen dull gweithredu cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu, sy'n ymgorffori gwaith cynllunio i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn un priodol.</p> <p>Mae'n amlwg bod angen rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod y system addysgol yn darparu'n well ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau lefel uchel o gysondeb ledled Cymru.</p> <p>Ymddengys fod angen y diogelwch cyfreithiol a roddir gan y datganiad, neu'r hyn sy'n cyfateb iddo, o hyd am y tro. Fodd bynnag, mae achos da dros leihau nifer y rhai sy'n destun datganiad. Golygai hynny roi datganiadau i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth yn unig. Ar yr un pryd, mae'n hanfodol sicrhau bod y datganiad yn darparu ar gyfer holl anghenion y plentyn neu'r person ifanc ac anghenion eu rhieni a'u gofalwyr.</p> <p>Ymddengys felly ei bod yn briodol parhau i weithredu system ddwy haen, sy'n cynnwys y rhai â datganiad a'r rhai nad oes ganddynt un. Byddai angen sicrhau bod hawliau'r rhai heb ddatganiad yn cael eu diogelu.</p> <p>Er bod yr ymgynghoriad dau gam wedi llwyddo i gael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid, mae angen parhau â'r broses o gynnal deialog â phawb dan sylw, ynghylch unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Mae'n bwysig ymgynghori â rhanddeiliaid nad ydym wedi ymgysylltu â hwy eto, e.e. aelodau etholedig, llywodraethwyr ysgolion a phobl ifanc ag AAA. Mae hefyd yn bwysig ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid y bu'n anodd eu cynnwys yn y broses, e.e. Uwch Reolwyr Gofal Cymdeithasol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc (CYYP).</p>	
<p>Dylai'r blaenoriaethau strategol ar gyfer newid gynnwys sefydlu cynlluniau peilot sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> o meithrin capasiti pob darparwr, ac yn arbennig ysgolion prif ffrwd, i nodi, asesu a diwallu anghenion dysgwyr ag AAA (strategaeth hyfforddi, cymorth i 	

Gydgysylltwyr AAA, rhaglenni hyfforddi ysgol gyfan/AALI, canllawiau penodol);

- o **nodi meini prawf a llwybrau ariannu ar gyfer darpariaeth AAA yn gliriach** er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i fanteisio ar gymorth ac adnoddau ledled Cymru;
- o ymgorffori **canlyniadau monitro a gwerthuso ar gyfer dysgwyr ag AAY/AAA**, fel rhan o fframwaith hunanwerthuso cynhwysol;
- o **gwella ansawdd gwaith partneriaeth gyda rhieni a dysgwyr**, gan gynnwys darparu systemau clir, hygyrch a straen isel ar gyfer mynegi pryderon a chwynion ynghylch darpariaeth ac ymarfer ar bob lefel (gweithdrefnau cyfryngu, eirioli, cwyno);
- o gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i **sicrhau y caiff polisïau lefel uchel ym mhob asiantaeth eu llywio gan faterion AAA/cynhwysiant**.

MEYSYDD POSIBL AR GYFER GWAITH DATBLYGU PEILOT

Mae darpariaeth ar gyfer treialu rhai agweddau ar system ddiwygiedig bosibl o fis Medi 2008. Mae'r canlynol yn awgrymiadau rhagarweiniol o ran meysydd lle y gallai'r math hwn o waith peilot fod yn ddefnyddiol:

1. Sicrhau ansawdd

Gallai'r gwaith o ddatblygu mesurau sicrhau ansawdd effeithiol gynnwys y canlynol:

- o Fframwaith hunanwerthuso a monitro cyffredin. Datblygu gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar Nod Ansawdd Cynhwysiant Cymru Gyfan i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac ymgorffori dulliau gweithredu ysgol gyfan megis fframweithiau *Ysgolion sy'n Ystyriol o Ddyslecsia / Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) /Lleferydd ac Iaith*. Yn ddelfrydol byddai hyn yn sicrhau bod fframweithiau anabledd, AAA a chynhwysiant yn cael eu huno.
- o Ystod gynhwysfawr o safonau ansawdd, canllawiau a deunydd cynorthwyo hunanwerthuso.
- o Llunio fframwaith o fesurau canlyniadau a data arall a allai helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer systemau sicrhau a monitro ansawdd, gan gynnwys adborth gwerthusol gan rieni a phobl ifanc.
- o Ystyried cynnwys sefydliadau sector gwirfoddol yn y prosesau sicrhau ansawdd.
- o Ystyried datblygu fforymau anabledd dysgu i geisio barn pobl ifanc ag AAA ac anableddau.
- o Datblygu system gymedroli i fonitro cysondeb ledled Cymru.
- o Datblygu systemau adrodd yn lleol ac yn genedlaethol.
- o Datblygu proses arolygu ar y cyd.

Mae'r Grŵp Gorchwyl Ariannu a Chanlyniadau eisoes yn cyflawni rhai agweddau ar y gwaith datblygu hwn a byddai angen ei gynnwys yn y broses o lywio gwaith datblygu pellach yn y maes hwn.

2. Meithrin capasiti

Mae angen datblygu a threialu rôl y *cyngorydd gwella ysgolion* fel yr amlinellir yn y papur *Opsiynau ar gyfer Newid*.

Un maes amlwg y mae angen bwrw ymlaen ag ef drwy waith treialu yw datblygu rôl Gwasanaethau Cynghori Gwella Ysgolion / Effeithiolrwydd Ysgolion presennol AALLau. Fodd bynnag, byddai angen sicrhau bod gan staff yn y gwasanaethau hyn yr wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen i allu monitro capasiti ysgolion o ran AAA / AAY a helpu i'w feithrin. Yn aml nid yw gwasanaethau Effeithiolrwydd Ysgolion a gwasanaethau Cynhwysiant / AAA bob amser yn cydweithio ac mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â hyn.

Mae rhaglen gyfredol *Datgloi'r Potensial* eisoes o werth i AALLau sy'n defnyddio eu hysgolion arbennig i wella eu fframwaith o wasanaethau cymorth AAA. Gellid gwneud defnydd helaethach o ysgolion arbennig a darpariaeth arbenigol arall i rymuso ysgolion prif ffrwd a byddai hynny'n ddefnyddiol.

Ymddengys hefyd fod modd cysylltu gwaith datblygu â'r cynlluniau peilot arfaethedig sy'n ymwneud â Thimau Gwella Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Datblygiad proffesiynol

Mae'r rhan fwyaf o'r anghenion a nodwyd drwy ymgynghoriad ar gyfer gwell datblygiad proffesiynol yn y system drwyddi draw hefyd wedi'u nodi yn yr adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Grymuso Athrawon Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant (ANID) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod angen gwella'r rhaglenni hyfforddi ar gyfer HCA. Rhaglenni ANC, DPC, CPCP, a RhABS(?). Mae llawer o'r gwaith datblygu yn y meysydd hyn eisoes yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, byddai'n werth datblygu agweddau eraill, megis:

- o Cwrs gorfodol ar gyfer Cydlynwyr AAA.
- o Cwrs safonol ar gyfer Cynghorwyr Gwella Ysgolion.
- o Fframwaith o gyrsiau ar gyfer cynorthwywyr addysgu.
- o Hyfforddi llywodraethwyr.
- o Hyfforddwyr dysgu arbenigol (14-19).
- o Hyfforddiant ymwybyddiaeth i Aelodau Etholedig.

4. Model rhyngddisgyblaethol ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth

Mae angen edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu model gwirioneddol ryngasiantaethol ar gyfer nodi, asesu, cynllunio ac adolygu plant a phobl ifanc ag AAA y mae eu hanghenion yn gofyn am fewnbwn mwy nag un asiantaeth.

Ymddengys ei bod yn synhwyrol edrych ar y posibilrwydd o gysylltu hyn â mentrau *Dechrau'n Deg* a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cynlluniau peilot y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn eu cynnal sy'n ymwneud â'r *Fframwaith Asesu Cyffredin*, (CAF). Ymddengys ei bod yn hanfodol sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn dod o dan fframwaith y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CYPP).

Byddai angen i waith peilot edrych ar y potensial sydd ar gyfer:

- o Prosesau asesu ac adolygu ar y cyd.
- o Un cynllun unigol sy'n gyfreithiol rwymol.
- o Darpariaeth gwricwlaidd "Diwrnod cyfan" / awr 24.
- o Diffiniadau, meini prawf a thermau cyffredin.
- o Fframwaith mwy effeithiol ar gyfer terfynau amser.
- o Fframwaith cyffredin ar gyfer trefniadau ariannu a chomisiynu ar y cyd.
- o Targedau perfformiad a thargedau strategol cyffredin sy'n ymwneud â'r grŵp cleientiaid hwn.
- o Darpariaeth ar gyfer myfyrwyr yn y cyfnod trosglwyddo i fod yn oedolyn, 14 - 25 oed.
- o Rôl y Gweithwyr Proffesiynol Arweiniol.

5. Rôl y Cydlynnydd AAA.

O gofio rôl hanfodol bwysig y Cydlynnydd AAA yn y system statudol a'r pryder dirfawr ynghylch effeithiolrwydd y Cydlynnydd AAA mewn llawer o ysgolion mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn:

- o Nodi sut y gellir sicrhau y bydd system o Gydlynwyr AAA yn gweithio, yn enwedig drwy drefniadau clystyru ar gyfer ysgolion bach.
- o Edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu rôl Cydlynnydd AAA a rennir rhwng yr athro a staff cymorth ysgolion.
- o Rôl y Cydlynnydd AAA yn y gwaith o reoli'r ysgol, gan gynnwys mewn perthynas â chyllid wedi'i ddirprwyo.
- o Llunio strwythur a gofynion gofynnol ar gyfer ysgolion.

6. Y fframwaith ar gyfer y rhai ag anghenion nad ydynt yn rhai cymhleth.

Mae angen datblygu'r canlynol:

- o Mesurau effeithiol i ddiogelu hawliau ar gyfer y rhai y nodwyd bod ganddynt AAA.
- o Trefniadau ar gyfer gwasanaethau eirioli a chyfryngu.
- o Y CDU.
- o System asesu, cynllunio ac adolygu hyblyg a syml y gellir eu rheoli mewn ysgolion. (pasbort).

7. Cynnwys pobl ifanc yn y prosesau asesu, cynllunio ac apelio.

Mae angen treialu systemau ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn briodol yn y prosesau asesu, cynllunio ac apelio. Cyflwynwyd dulliau *Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn* yn llwyddiannus mewn ychydig o gyd-destunau yng Nghymru ac ymddengys eu bod yn sail dda ar gyfer cynnwys pobl ifanc drwy eu galluogi i fynegi eu barn neu eu dymuniadau a gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Fodd bynnag, hyd yma, mae dealltwriaeth o'r technegau a'r dulliau gweithredu sy'n gysylltiedig â hyn yn gyfyngedig.

8. Ariannu darpariaeth AAA.

Mae angen gwneud rhagor o waith dadansoddi ac edrych ar y posibilrwydd o wneud gwelliannau yn y

meysydd canlynol:

- o Y diffyg ymddangosiadol yn y cyllid a ddarperir ar gyfer darpariaeth AAA.
- o Diogelu cyllid AAA o fewn cyllidebau ysgolion prif ffrwd.
- o Diogelu cyllidebau AAA AALLau i alluogi i'w gwneud yn bosibl i ddiwallu anghenion a nodwyd.
- o Gwahanu prosesau AALLau ar gyfer nodi / asesu anghenion oddi wrth brosesau dyrannu adnoddau.
- o Gwella atebolrwydd ynghylch y modd y caiff adnoddau eu dosbarthu a'u gwario ym mhob cyd-destun.

Mae Grŵp Gorchwyl Ariannu a Chanlyniadau AAA eisoes yn edrych ar lawer o'r materion hyn a byddai angen ei gynnwys yn y gwaith o lywio gwaith datblygu yn y dyfodol.

9. Cymorth Eiriolaeth

Mae angen datblygu rôl yr eiriolwr o fewn unrhyw system ddiwygiedig ymhellach ac wedyn ei threialu. Mae angen diffinio rolau yn ofalus rhwng gwasanaethau eiriolaeth a gwasanaethau datrys gwrthdaro.